# Adroddiad Grŵp Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Paratowyd gan: Gaenor Parry

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Nod pob prosiect sy'n seiliedig ar lefydd yw mynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd y fframwaith sy'n seiliedig ar lefydd yn blaenoriaethu gwaith integreiddio a bydd yn cynnwys dull cyfannol a dwfn o ymdrin â chydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldebau, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp** | Gwella Llesiant Cymunedol a Mynd i'r Afael â Chaledi yn Aberteifi |
| **Y Cadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |

| **Aelodaeth y Grŵp** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Alison Heal, Bethan James**, Caitlin Theodorou, Carwyn Young, Carys Huntley, Carys Owens, **Cathryn Morgan,** Cerys Purches-Phillips, Connor Cook, Eirlys Lloyd, Y Cynghorydd Elaine Evans, Emily Edwards, Erin McCudden, Mari Hopkins, Martin Gillard, Melanie Walters, Non Davies, Rhiannon John, **Rob Starr**, Sarah Evans, Dr Sarah Groves Phillips<br>Tîm Partneriaethau: Anwen Thomas, Lynne Walters, Neris Davies, Sara Dafydd, Steffan Gruffudd**, Teleri Elias**, **Timothy Bray** | Cymdeithas Tai Wales and West<br><br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Rhiannon Ling<br><br>Conrad Hancock, **Geinor Jones**, Jackson Reynolds, **Janet Knill**, **Rhian Rees,** Terri-Ann Patrick, Trina Nealon, Vicki Howell-Williams |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) | **Chesca Ross** | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Steven Davies | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies |
| Barcud Ceredigion | Catrin Owen, **Sue Thomas** | Mentera | **Ann Owen** |
| CAB Ceredigion | Glynis Llewelyn, Juliet Morris | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | **Mandy Williams,** Mererid Lewis |
| Area 43 | Becca Head | Age Cymru | **Lynne Hughes-Davies** |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP CYFLAWNI**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Cyflawni: 7.5.2025**

**16.1 Croeso ac ymddiheuriadau**
Croesawodd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod.

**Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:** Martin Gillard, Melanie Walters, Erin McCudden, Elinor Ashworth-Chandler, Y Cynghorydd Elaine Evans a Juliet Morris

**16.2 Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol (15.1.25)**
Nodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2025 a chytunwyd eu bod yn gywir. Hefyd, cytunwyd bod y camau a gofnodwyd wedi'u cwblhau neu eu bod wedi'u cynnwys ar agenda'r cyfarfod hwn.

**16.3 Eitem sefydlog: Diweddariad am gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (03.03.2025)**
Rhoddodd Timothy Bray (TB) drosolwg o'r trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar 3 Mawrth 2025:

- Bu aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu eu barn am benderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i gau'r Ganolfan yn Ynyslas.
- Trafodwyd cofnod o gamau gweithredu y cyfarfod blaenorol. Byddai ar gael ar y wefan yn fuan.
- Diweddarwyd y teclyn olrhain gweithgareddau a thynnwyd sylw at y camau gweithredu perthnasol.

- Roedd hi'n bryd cyhoeddi'r adroddiad blynyddol. Byddai'r ddogfen ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin.
- Roedd y Tîm Partneriaethau wrthi ar hyn o bryd yn prynu *gazebo* a deunyddiau hyrwyddo y byddai modd eu defnyddio wrth fynd i nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau i hyrwyddo Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd Calendr Digwyddiadau wedi'i greu a fyddai'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor i roi gwybod i'r partneriaid a'r cyhoedd am y digwyddiadau y byddai tîm y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd iddyn nhw. Byddai hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i'r partneriaid a'r cyhoedd gynnig awgrymiadau. Gofynnwyd i'r partneriaid anfon unrhyw wybodaeth am ddigwyddiadau a fyddai'n cael eu cynnal yn fuan at swyddogion y Tîm Partneriaethau: partneriaethau@ceredigion.gov.uk . Byddai'r Tîm Partneriaethau yn mynd i'r Sioe Iechyd a Llesiant yn Aberporth ym mis Mehefin. Soniodd CM fod y Cysylltwyr Cymunedol wedi rhannu rhestr o'r digwyddiadau galw heibio ar dudalen Cyngor Sir Ceredigion ar MS Teams a bod y wybodaeth hon eisoes ar gael i'r cyhoedd. Awgrymodd HLL y byddai'n werth defnyddio lliwiau/labeli gwahanol i wahaniaethu rhwng digwyddiadau cyhoeddus a digwyddiadau galw heibio. Awgrymwyd hefyd y dylid creu dolen a fyddai'n mynd â phobl o'r dudalen hon i galendr digwyddiadau'r Tîm Partneriaethau.

Tynnodd Sue Thomas (ST) sylw at bwysigrwydd ystyried cynhwysiant digidol wrth hyrwyddo digwyddiadau, gan nodi nad oedd gan bawb fynediad at y llwyfannau ar-lein ac nad oedd pawb yn gyfforddus yn eu defnyddio.

- Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am y digwyddiad trafnidiaeth gymunedol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl iddo gael ei gyfieithu.
- Bu Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bresennol mewn gweithdy ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ffynhonnell ariannu bwysig i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddai adroddiad am y gweithdy yn cael ei gyhoeddi'n fuan a byddai'n cael ei rannu â'r aelodau unwaith y byddai'n dod i law.
- Roedd y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol yn ystyried trefniadau llywodraethu'r bwrdd a'r ffyrdd yr oedd yn ymwneud â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Cynigiodd Barry Rees y gellid uno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella presenoldeb a lleihau dyblygu ar draws y cyfarfodydd. Roedd adolygiad ar y gweill i asesu manteision a goblygiadau posibl dod â chynrychiolwyr o Sir Gaerfyrddin, Powys, Sir Benfro a Cheredigion at ei gilydd.
- Rhoddodd Russell Hughes-Pickering gyflwyniad ar 'Ffordd Newydd o Weithio' Cyngor Ceredigion gan gynnwys gweithio hybrid a materion yn ymwneud ag adeiladau. Byddai'r cyfleoedd i ddatblygu'r posibiliadau ynghylch adeiladau ac adnoddau ar y cyd yn cael eu hystyried cyn cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin.

- Ni fyddai'r Grŵp Hinsawdd a Natur yn cwrdd am y tro hyd nes y byddai Cadeirydd newydd yn cael ei benodi. Yn y cyfamser, roedd Ceredigion yn gweithio ochr yn ochr â Sir Gaerfyrddin i ddatblygu a chwblhau'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd.

**<u>16.4 Y Diweddaraf am Geredigion Oed-gyfeillgar</u>**
Am nad oedd Melanie Walters (MW) yn medru bod yn bresennol, roedd wedi rhannu'r diweddariad canlynol â'r Tîm Partneriaethau cyn y cyfarfod:

- Roedd Elinor Ashworth-Chandler newydd ei phenodi'n Arweinydd Prosiect Heneiddio'n Dda.
- Byddai Fforwm Ceredigion Oed-gyfeillgar yn cael ei gynnal ddydd Mercher 28 Mai rhwng 2pm a 4pm. Y thema fyddai cysylltedd digidol.
- Roedd awr oed-gyfeillgar wedi'i lansio bob mis yn Llanbedr Pont Steffan a'r bwriad oedd ymestyn hyn i Dregaron a Theatr Felinfach. Byddai siaradwyr gwadd yn dod i'r sesiynau i drafod pynciau megis maeth, cyllid a chefnogaeth ddigidol a byddai'r digwyddiad cyntaf yn cael ei gynnal ar 15 Mai. Awgrymodd HLL y gellid ystyried lleoliadau posibl yn Aberteifi er mwyn cefnogi'r Awr Oed-gyfeillgar bob mis.
- Ar ôl trafod â rheolwr Hwb Penparcau, cafwyd y syniad o gynnal digwyddiad iechyd chwarterol a fyddai'n cynnwys archwiliadau ar gyfer clefyd y siwgr, pwysau gwaed a'r clyw. Byddai'r digwyddiad cyntaf yn cael ei gynnal ar 18 Mehefin a'r bwriad oedd cynnal digwyddiad tebyg bob tri mis ac ymestyn hyn i dde'r sir.
- Roedd ail fersiwn Cyfeiriadur Oed-gyfeillgar Ceredigion wedi'i hargraffu a'i dosbarthu ac roedd 5,000 o gopïau wedi'u gadael mewn gwahanol fannau.

**Cam Gweithredu: Ar ôl y cyfarfod, byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu diweddariad Melanie Walters am Geredigion Oed-gyfeillgar â'r partneriaid.**

Rhoddodd Lynne Hughes-Davies (LHD) o Age Cymru Dyfed drosolwg o'r gwaith yr oeddent yn ei wneud:

- Roedd cyllid ar hyn o bryd yn brin a oedd yn golygu bod y cymorth a gynigir yn llai.
- Roedd y gwasanaeth galw heibio ar agor ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher ond nid oeddent yn gwneud ymweliadau cartref.
- Rhoddwyd trosolwg o'r prosiect Byw Adref a'r clinigau yr oeddent yn eu rhedeg yng Ngheredigion.
- Roeddent yn derbyn cyllid drwy'r Grant Cymorth Tai gan gynnig cymorth rhan amser i bobl sy'n byw gyda dementia.
- Roedd cymorth digidol yn cael ei gynnig yn y gymuned.

- Roedd ganddynt Gydlynydd Cyfeillio a fyddai'n sefydlu grwpiau cymunedol, cyfeillio un-i-un a chyfeillio dros y ffôn.
- Roedd eu swyddfa wedi'i lleoli yn Aberystwyth.

Dywedodd Bethan James (BJ) wrth y grŵp y byddai'r Cysylltwyr Cymunedol cyn bo hir yn gofyn am gyfraniadau i rifyn nesaf Cylchgrawn y Gofalwyr. Byddai'r rhifyn hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst 2025 a byddai angen cyflwyno'r erthyglau erbyn 6 Mehefin 2025.

**16.5 Dull Systemau Cyfan ar gyfer y rhaglen Pwysau Iach – Ymgysylltu â'r Gymuned – Mapio Asedau**

Cadarnhaodd GEJ eu bod wedi bod yn gweithio gyda Phrosiect Dewi i ddarparu hyfforddiant mapio asedau ar ffurf 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' gydag is-grwpiau Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Bu 15 o bobl yn bresennol. Gofynnwyd i'r sawl a fu'n bresennol fynd ati i hwyluso sesiynau mapio asedau a fyddai'n canolbwyntio ar fynediad at fwyd a gofynnwyd iddynt anfon eu canfyddiadau at y tîm. Y gobaith oedd y byddai modd nodi cyfleoedd i weithio gyda chymunedau. Cadarnhaodd GEJ fod ei thîm bellach yn trefnu rhagor o gyfarfodydd gyda chadeiryddion yr is-grwpiau i adolygu'r cynnydd a wneir o ran mapio asedau.

Soniodd GEJ am y Bartneriaeth Polisi ac Arloesi'n Lleol ac am y gweithdai arloesi a fyddai'n cael eu cynnal yn fuan. Byddai un gweithdy yn cael ei gynnal yn Llangybi ar 20 Mehefin, gan ganolbwyntio ar 'Dyfu, Coginio a Bwyta Gyda'n Gilydd.

Roedd nifer o bethau diddorol wedi dod i'r amlwg o'r gwaith mapio yr oedd y partneriaid wedi'i wneud ac roedd yn bosib y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud yn y dyfodol ynghylch y modd y gellid rhannu'r canlyniadau hyn â'r cyhoedd.

Dywedodd Alison Heal (AL) fod ei thîm, ar y cyd â'r bartneriaeth natur leol, yn bwriadu cynnal gweithdy mapio yn y bandstand yn Aberystwyth ddydd Gwener, 11 Gorffennaf.

Nododd Ann Owen eu bod wedi cwblhau'r gwaith mapio ar yr holl randiroedd a mannau cymunedol yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn dilyn yr hyfforddiant mapio a gynhaliwyd gan Brosiect Dewi, roedd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru wedi paratoi canllaw ynghylch mapio asedau.

**Cam Gweithredu- Byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu'r ddolen at ganllaw Mapio Asedau Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru â'r grŵp.**

**16.6 Diweddariad ynglŷn â Phartneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion**

Rhoddodd Ann Owen (AO) y wybodaeth ddiweddaraf am Bartneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion:

- Roedd Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru wedi'i chyhoeddi'r wythnos flaenorol a oedd yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru. Cadarnhawyd hefyd fod cyllid ar gyfer yr holl bartneriaethau bwyd lleol ledled Cymru wedi cael ei sicrhau am y ddwy flynedd nesaf.
- Roedd cyllid ar gael drwy'r Grant Nodweddion Gwarchodedig. Nod y grant hwn oedd sicrhau bod unigolion â nodweddion gwarchodedig yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau. https://connectceredigion.org.uk/grants/partneriaeth-bwyd-ceredigion-small-grant

**Cam Gweithredu – Byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu'r ddolen at Grantiau Bychain Partneriaeth Bwyd Ceredigion â'r grŵp.**

- Roedd Partneriaid Ceredigion wedi gwneud cais i fod yn aelodau o'r fenter Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ac roeddent yn aros i gael cadarnhad a oeddent wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.
- Byddai'r arolwg Bwyd Da yn cael ei ddadansoddi gan gwmni proffesiynol, ac roedd disgwyl y byddai'r canlyniadau ar gael erbyn dechrau'r mis nesaf.
- Roedd tîm AO, mewn cydweithrediad â phartneriaethau bwyd lleol cyfagos, yn canolbwyntio ar wydnwch bwyd, gan archwilio'n benodol sut yr oedd unrhyw darfu yn effeithio ar y cyflenwad bwyd.
- Mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro, roedd y tîm yn pwyso a mesur y gwasanaeth Pryd ar Glud oherwydd costau uchel dosbarthu'r prydau. Ar hyn o bryd, roeddent yn archwilio modelau eraill.
- Roedd y tîm hefyd yn cydweithio â'r Bartneriaeth Polisi ac Arloesi'n Lleol, gan gyfrannu at eu grŵp ffocws ar y Prosiect Lles Gwledig. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fwyd. Un maes ffocws allweddol oedd bwyta'n gymdeithasol a'r bwriad oedd mynd i'r afael â sawl mater, gan gynnwys unigrwydd a diffyg maeth.
- Roedd y tîm yn parhau i gynnig Sgyrsiau Bwyd Da, ac roeddent yn agored i unrhyw gais.
- Byddai Ceredigion yn un o'r siroedd a fyddai'n darparu llysiau sydd wedi'u tyfu yng Nghymru i ysgolion lleol.
- Roedd pob un o'r rhandiroedd yn Nanteos yn cael eu defnyddio. Yn anffodus, roedd yr adeilad wedi'i werthu ac felly roedd y toiledau wedi'u colli.

**16.7 Trafodaeth am y Blaengynllun Gwaith**

Trafododd y grŵp y meysydd y byddent yn canolbwyntio arnynt yn y dyfodol. Dyma grynodeb o'r drafodaeth:

- Ehangu'r Agenda Bwyd drwy feithrin cynlluniau mwy lleol sy'n canolbwyntio ar gymunedau.
- Datblygu canolfan les yn Aberteifi gan sicrhau mwy o integreiddio ar draws y gwasanaethau.
- Datblygu ymhellach ar y gwaith Mapio Asedau fel y gellid ymgysylltu'n well â'r gymuned a nodi adnoddau a chryfderau yn lleol er mwyn cefnogi twf a chydweithio gan ofyn am arweiniad oddi wrth Pwysau Iach Cymru ynghylch y blychau o ran demograffeg.
- Ymchwilio i'r ffactorau eang sy'n dylanwadu ar iechyd a'u heffaith ar lesiant.
- Parhau â'r fenter 'Gadewch i ni Siarad' yn Aberteifi, gan ymgysylltu â'r cymunedau lleol a'u cynorthwyo.
- Canolbwyntio ar Genedlaethau'r Dyfodol gan roi sylw penodol i fwyd a mynediad at gaffis atgyweirio yn lleol. - (Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025)

Cafwyd trafodaeth am fenter Benthyg Cymru, menter a oedd yn cefnogi llyfrgelloedd y pethau. Serch hynny, nid oedd yna lyfrgelloedd y pethau yng Ngheredigion ar hyn o bryd am nad oedd yna leoliadau addas. Soniwyd am yr her barhaus gan mai prin oedd y lleoliadau addas a oedd ar gael. Dywedodd HLL y dylai'r tîm ystyried sut yr oeddent yn ymgysylltu â grwpiau yn Aberteifi gan sicrhau ei fod yn gwneud hynny'n fwy effeithiol.

**Cam Gweithredu: Yn dilyn y cyfarfod hwn, byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu crynodeb o'r drafodaeth ynghylch y Blaengynllun Gwaith â'r grŵp.**

**Cam Gweithredu: Byddai'r Blaengynllun Gwaith yn parhau ar agendâu cyfarfodydd y dyfodol.**

**16.8 Diweddariadau gan y Partneriaid / Unrhyw Fater Arall**

Soniodd HLL am Grant Cysylltu a Gwybodaeth CAVO. Roedd mwy o wybodaeth ar gael yma.
Hefyd, rhannodd HLL wybodaeth â'r grŵp am Gronfeydd CAVO ar gyfer Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Bwriad y cronfeydd hyn oedd gwella mynediad at fwyd a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi. Roedd mwy o wybodaeth ar gael yma.

Tynnodd Rhian Rees (RR) sylw at y newid ym model gofal sylfaenol Cymru a'i fod bellach yn fodel llesiant cymdeithasol, a oedd yn annog cydweithio â chlystyrau meddygon teulu wrth lunio gwasanaethau lleol.

Soniodd CM am y digwyddiad coginio 'Ein Cegin' a fyddai'n rhan o'r digwyddiad 'Gadewch i ni Siarad' cyntaf yn Llanbedr Pont Steffan. Byddai'r digwyddiad yn dod â phobl ynghyd mewn awyrgylch ymlacedig a'r gobaith oedd y byddai hyn yn arwain at sgyrsiau gwell. Byddai digwyddiad arall yn cael ei gynnal yn Aberporth ar 7.5.25.

**Cam Gweithredu: Ar ôl i'r fenter 'Gadewch i ni Siarad' ddod i ben, byddai Cathryn Morgan yn rhoi trosolwg o'r adroddiad.**

Awgrymodd TB y gellid cynnal un o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / is-grŵp y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan ddilyn fformat y fenter 'Gadewch i ni Siarad'. Dywedodd HLL y byddai angen iddi hi, TB, a CM gwrdd ar ôl y cyfarfod i drafod ymestyn cyfnod Nic Pryor yn ei swydd y tu hwnt i fis Mehefin fel y gellid gwneud mwy o waith grwpiau ffocws gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn benodol yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi.

Dywedodd HLL iddi drafod y posibilrwydd o gynnal digwyddiad llesiant yn Aberteifi â'r Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol. Roedd gan y Tîm ddiddordeb a byddai dyddiad yn cael ei rannu maes o law.

Dywedodd Janet Knill (JK) fod y Ganolfan Gofal Integredig wedi bod ar agor bob penwythnos rhwng canol Rhagfyr a dechrau Mawrth sef 12 penwythnos. Roedd modd darparu'r gwasanaeth gan ddefnyddio cyllid yr Her 50 Diwrnod. Cefnogwyd 1,444 o bobl yn ystod y cyfnod hwn. Roedd achos busnes wedi'i ysgrifennu gan fod yna alw i barhau â'r gwasanaeth.

Soniodd JK am yr ymchwil Gwres ar Bresgripsiwn, a oedd yn helpu pobl sy'n dioddef o asthma i sicrhau mwy o wres yn eu cartrefi. Roedd y fenter hon yn un a oedd yn cael ei rhedeg ar y cyd rheng ymgynghorwyr anadlol Hywel Dda a Hafren Gwy.

Dywedodd CM fod aelodau'r Is-grŵp Tlodi yn eu cyfarfod diwethaf wedi gofyn i'r Tîm Partneriaethau ddod â'r rheini sy'n darparu cyngor am ynni yng Ngheredigion at ei gilydd. Rhoddodd Nyth, Cyngor ar Bopeth Ceredigion, Hafren Gwy, a Gofal a Thrwsio drosolwg o'r sefyllfa gyfredol. Awgrymodd HLL y gallai'r Is-grŵp Tlodi gynnal ail gyfarfod i archwilio'r hyn y byddai modd ei wneud gyda'r prosiectau a oedd eisoes yn bodoli.

Dywedodd CM wrth y grŵp y byddai polisi Cyfranogi ac Ymgysylltu'r Cyngor Sir yn cael ei adolygu eleni ac y byddai polisi newydd yn cael ei gyhoeddi'r flwyddyn nesaf. Roedd cynllun ymgysylltu wedi'i baratoi er mwyn ceisio deall sut yr oedd pobl yn dymuno ymgysylltu â'r Cyngor a byddai'r adborth hwn yn cyfrannu at y gwaith o lunio'r polisi . Byddai grwpiau ffocws yn cael eu cynnal a'r bwriad oedd cynnal dwy sesiwn yn Aberteifi. Byddai CM yn darparu rhagor o wybodaeth i'r grŵp maes o law.

| |
|---|
| Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwll nofio Aberteifi a oedd wedi cau a phwysleisiwyd pa mor bwysig oedd cael pwll nofio yn yr ardal.<br><br>**Cam Gweithredu: Byddai Carwyn Young yn rhoi diweddariad am y ganolfan les yn Aberteifi yn un o gyfarfodydd y dyfodol, gan gynnwys y cysylltiadau â gwasanaethau eraill yn yr ardal.**<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser. Daeth y cyfarfod i ben am 11:50. |
| **<u>16.9 Dyddiad y cyfarfod nesaf:</u>** 8 Gorffennaf 2025 - rhwng 10:00 a 12:00 |
| **Crynodeb o'r Camau Gweithredu** |
| **1.** Ar ôl y cyfarfod, byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu diweddariad Melanie Walters am Geredigion Oed-gyfeillgar â'r partneriaid. |
| **2.** Byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu'r ddolen at ganllaw Mapio Asedau Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru â'r grŵp. |
| **3.** Byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu'r ddolen at Grantiau Bychain Partneriaeth Bwyd Ceredigion â'r grŵp. |
| **4.** Yn dilyn y cyfarfod hwn, byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu crynodeb o'r drafodaeth ynghylch y Blaengynllun Gwaith â'r grŵp. |
| **5.** Byddai'r Blaengynllun Gwaith yn parhau ar agendâu cyfarfodydd y dyfodol. |
| **6.** Ar ôl i'r fenter 'Gadewch i ni Siarad' ddod i ben, byddai Cathryn Morgan yn rhoi trosolwg o'r adroddiad. |
| **7.** Byddai Carwyn Young yn rhoi diweddariad am y ganolfan les yn Aberteifi yn un o gyfarfodydd y dyfodol, gan gynnwys y cysylltiadau â gwasanaethau eraill yn yr ardal. |